The Participation Consortium and the Participation Unit for Wales
Consortiwm Cyfranogiad ac Uned Cyfranogiad Cymru

The development of the full and active participation of all children and young people is a core value of the work of Save the Children in Wales. Further information on Save the Children's work on participation can be found in the occasional paper **Children and Young People's Participation.** Save the Children has been the lead agency in developing the Participation Consortium and the Participation Unit for Wales, both of which are national strategic structures for enabling and supporting children and young people's participation (0-25 years) in decision-making in Wales. Save the Children chairs the Participation Consortium and hosts the Participation Unit.

The Participation Consortium

In March 2003, the Welsh Assembly Government initiated a task group specifically to look at a structure for enabling and supporting children and young people's participation 0 – 25 years in decision-making across Wales**.**

The task group resulted in establishing a Participation Consortium for Wales. A consortium approach to developing participation ensures co-ordination and the sharing of good practice, avoids duplication and acknowledges diversity.

Current membership of the Consortium includes Black Voluntary Sector Network, Cardiff Black Youth Network, Children in Wales, CWVYS, Funky Dragon, Framework for Partnership Co-ordinators, Tros Gynnal, Voices from Care, Save the Children, Wales Youth Agency, WCVA, Canllaw, Youth and Pupil Participation Division of WAG, the Children's Commissioners Office, Youth Forum Workers, Youthlink Wales, Barnardos, CAFCASS, Carnegie Young People's Initiative, CEWC, Estyn.

Participation Unit

- The Participation Consortium received funding from the WAG Children and Family Organisations Grants Scheme and the European Social Fund to establish a Participation Unit in October 2004.

Datblygu cyfranogiad llawn a gweithredol pob plentyn a pherson ifanc yw craidd gwaith Achub y Plant yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am waith Achub y Plant ar gyfranogiad ar gael yn y papur achlysurol **Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.** Bu Achub y Plant yn arwain yn y gwaith o ddatblygu Consortiwm Cyfranogiad ac Uned Cyfranogiad Cymru. Mae'r ddau hyn yn strwythurau strategol cenedlaethol ar gyfer galluogi a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) yn y broses o lunio penderfyniadau yng Nghymru. Achub y Plant sy'n cadeirio'r Consortiwm Cyfranogiad ac sy'n llywyddu'r Uned Cyfranogiad.

Y Consortiwm Cyfranogiad

Ym mis Mawrth 2003, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grŵp gorchwyl i edrych yn arbennig ar strwythur ar gyfer galluogi a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yn y broses benderfynu ledled Cymru.

Yn sgîl y grŵp gorchwyl, sefydlwyd Consortiwm Cyfranogiad Cymru. Mae gweithredu fel consortiwm i ddatblygu cyfranogiad yn sicrhau cydlyniad a rhannu arferion da, mae'n osgoi dyblygu ac mae'n cydnabod amrywiaeth.

Aelodau presennol y Consortiwm yw Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Du, Rhwydwaith Pobl Ifanc Ddu Caerdydd, Plant yng Nghymru, Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS), Y Ddraig Ffynci, Fframwaith Cydlynwyr Partneriaethau, Tros Gynnal, Lleisiau mewn Gofal, Achub y Plant, Cyngor Ieuenctid Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Canllaw, Is-adran Cyfranogiad Disgyblion ac Ieuenctid Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Plant, Gweithwyr Fforwm Ieuenctid, Cyswllt Ieuenctid Cymru, Barnardos, CAFCASS, Menter Pobl ifanc Carnegie, Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth y Byd (CEWC), Estyn.

Save the Children
Achub y Plant

- This Unit is seen as a focal point to promote children and young people's participation and has four principle tasks: Co-ordination, Assessment, Enabling and Sharing. The meaningful participation of children and young people in the work of the Unit is fundamental, as is working with participation practitioners across Wales.
- A Participation Unit Manager and three other supporting staff members have been appointed to work in the Unit.
- The Participation Consortium is currently operating as a steering group for the Unit and for joint development of a co-ordinated strategic approach to participation in Wales.

Work of the Participation Consortium and Unit includes:

- Developing work on definitions of and national standards for participation.
- Gathering evidence on the benefits and outcomes of participation and impact assessment.
- Working together to audit training, identify gaps and to establish fundamental 'core' elements of training in participation.
- Providing support to child and young person led initiatives / organisations.
- Mapping participation across Wales to establish a 'baseline' for strategic planning.
- Supporting and developing work on children and young people's participation in policy theme areas such as Education and Communities First.

The Participation Consortium and Participation Unit works closely with the Participation Project based within the Welsh Assembly Government developing the participation of children and young people in the work of the Assembly.

For further information contact:
Anna Skeels Participation Unit Manager on 02920 396838; a.skeels@savethechildren.org.uk; or Eleri Thomas Assistant Programme Director, Save the Children on 01352 750 363 e.thomas2@savethechildren.org.uk.

Yr Uned Gyfranogiad

- Derbyniodd y Consortiwm Cyfranogiad gyllid trwy Gynllun Grantiau Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop i sefydlu Uned Gyfranogiad ym mis Hydref 2004.
- Gwelir yr Uned hon fel pwynt canolog i hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc ac mae ganddi bedair prif dasg: Cydlynu, Asesu, Galluogi a Rhannu. Credir bod cyfranogiad ystyrlon gan blant a phobl yng ngwaith yr Uned yn gwbl allweddol, fel ag yw gweithio ag ymarferwyr cyfranogiad ledled Cymru.
- Penodwyd Rheolwraig Uned Cyfranogiad a thri aelod arall o staff cefnogi i weithio yn yr Uned.
- Ar hyn o bryd mae'r Consortiwm Cyfranogiad yn gweithredu fel grŵp llywio'r Uned ac ar gyfer cyd-ddatblygu agwedd strategol gydlynol tuag at gyfranogiad yng Nghymru.

Mae gwaith y Consortiwm a'r Uned Cyfranogiad yn cynnwys:

- Datblygu gwaith ar ddiffiniadau o gyfranogiad a'r safonau cenedlaethol ar ei gyfer.
- Casglu tystiolaeth am fanteision a chanlyniadau cyfranogiad ac asesiad o'r effaith.
- Cydweithio i archwilio hyfforddiant, nodi bylchau a sefydlu elfennau 'craidd' sylfaenol hyfforddiant ym maes cyfranogiad.
- Cefnogi cynlluniau / mudiadau sy'n cael eu llywio gan blant a phobl ifanc.
- Mapio cyfranogiad ledled Cymru er mwyn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer cynllunio strategol.
- Cefnogi a datblygu gwaith ar gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn meysydd polisi thematig megis Addysg a Chymunedau yn Gyntaf.

Mae'r Consortiwm Cyfranogiad a'r Uned Cyfranogiad yn gweithio'n agos gyda Phrosiect Cyfranogiad Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n datblygu cyfranogiad plant a phobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:
Anna Skeels, Rheolwraig yr Uned Gyfranogiad ar 02920 396838; a.skeels@savethechildren.org.uk; or Eleri Thomas, Cyfarwyddwraig Rhaglen Gynorthwyol, Achub y Plant ar 01352 750 363 e.thomas2@savethechildren.org.uk.